

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â dal pysgod o bysgodfa gan ddefnyddio technegau electrobysgota. Mae'n cwmpasu pennu a yw'r amodau amgylcheddol yn addas ar gyfer electrobysgota. Hefyd, mae'n cynnwys paratoi cyfarpar electrobysgota i'w ddefnyddio, ynghyd â chychod, rhwydi a chyfarpar a ddefnyddir i gadw pysgod byw, sefydlu'r ardal bysgota a defnyddio cyfarpar electrobysgota yn ddiogel er mwyn caniatáu am ddal pysgod. Mae'r gallu i arsylwi ac adrodd ar effeithiolrwydd y weithred electrobysgota yn bwysig, hefyd.

Mae'r safon hon yn gofyn am sefydlu cyfarpar electrobysgota gwarbac a glan afon, gan gynnwys y generadur, blwch rheoli electrobysgota, lidiau, anod a chathod.

Mae'r safon hon yn caniatáu am addasu'r dulliau dal pysgod oherwydd niferoedd mawr o bysgod, trosglwyddiadau pysgod, newidiadau yn amodau'r dŵr neu newidiadau mewn rhywogaeth.

Mae'r safon hon yn gofyn eich bod yn gwneud gwaith yn ddiogel, yn unol â gofynion cyfreithiol a gofynion iechyd a diogelwch perthnasol, a'ch bod yn gweithio i gynnal biddiogelwch a lleihau tarfu amgylcheddol bob amser.

Bydd y ddeddfwriaeth berthnasol sy'n rheoli cymhwyso'r safon hon yn amrywio yn ôl y lleoliad – yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cyflawni'r holl weithgareddau sy'n ofynnol i ddal pysgod yn ddiogel gan ddefnyddio technegau electrobysgota, yn unol â gofynion iechyd a diogelwch perthnasol
2. dewis a defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol ar gyfer y gwaith sy'n ofynnol
3. cael y fanyleb berthnasol ar gyfer dal pysgod
4. cadarnhau bod y trwydded(au)/hawlen(ni) perthnasol i ymgymryd ag electrobysgota yn eu lle cyn dechrau'r gweithgaredd
5. cynnal asesiad risg i bennu a yw'n ddiogel electrobysgota
6. paratoi a chynnal a chadw cyfarpar i'r safon ofynnol ar gyfer electrobysgota
7. paratoi unedau addas ar gyfer cadw pysgod i dderbyn a chynnal cyflwr y pysgod
8. paratoi'r ardal bysgota i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o bysgod yn dianc
9. dewis y foltedd priodol ar gyfer yr amodau i ddal y pysgod, ond peidio â'u niweidio
10. gweithredu rhwydi ac anod o fewn tîm
11. cynnal cyfathrebiadau â'r tîm trwy gydol y gweithgareddau electrobysgota
12. rheoli gweithgarwch electrobysgota i sicrhau ei fod yn effeithio ar yr ardal bysgota a fwriadwyd yn unig
13. arsylwi perfformiad y weithred electrobysgota, gan sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r fanyleb berthnasol ar gyfer dal pysgod
14. nodi bod angen atal neu addasu'r gweithgarwch electrobysgota a chyfleu hynny i'r tîm electrobysgota
15. trin pysgod sydd wedi'u dal mewn ffordd sy'n lleihau straen
16. monitro a gwylio adferiad pysgod a rhoi gwybod i'r person priodol am unrhyw arwyddion o straen, trafferth neu annormaledd
17. rhoi gweithdrefnau brys ar waith os bydd digwyddiad wrth gyflawni gweithgareddau electrobysgota
18. diheintio a, lle bo hynny'n briodol, storio cyfarpar electrobysgota ar ôl eu defnyddio, yn unol â gofynion
19. cynnal lefelau addas o fioldiogelwch wrth ddal pysgod gan ddefnyddio technegau electrobysgota

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. eich cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth a chodau ymarfer amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau electrobysgota
2. pwysigrwydd defnyddio'r cyfarpar diogelu personol (PPE) cywir
3. pam mae pysgod yn cael eu dal fel rhan o weithrediadau rheoli pysgodfeydd
4. yr amodau amgylcheddol sy'n ofynnol ar gyfer cadw pysgod
5. y trwyddedau/hawlenni cywir sy'n ofynnol i electrobysgota
6. pam mai electrobysgota yw'r prif ddull monitro i lawer o bysgodfeydd
7. manteision ac anfanteision electrobysgota
8. sut gall nodweddion naturiol o fewn corff dŵr helpu i ddiffinio ardal bysgota
9. yr amrywiaeth o dechnegau electrobysgota, gan gynnwys y ffyrdd o'u defnyddio i bysgota mewn gwahanol fathau o gorff dŵr (dŵr rhedegog a dŵr llonydd) yn effeithiol
10. pwysigrwydd sefydlu ardaloedd bysgota addas cyn electrobysgota
11. egwyddorion electrobysgota, gan gynnwys sut gall electrobysgota niweidio pysgod
12. y cyfarpar sy'n ofynnol i ategu electrobysgota a sut i'w baratoi a'i gynnal a chadw, yn barod i'w weithredu'n ddiogel
13. pryd i ddefnyddio cychod bŵm ac anodau â llaw wrth ddal pysgod gan ddefnyddio electrobysgota
14. pam mae'n bwysig tynnu pysgod o'r maes trydan yn gyflym
15. adwaith disgwylidig rhywogaethau pysgod gwahanol yn ystod gweithgareddau electrobysgota
16. sut i adnabod straen yn y pysgod wedi'u stynio
17. sut i adnabod arwyddion o adfer mewn pysgod wedi'u stynio
18. pam mae'n bwysig i'r broses electrobysgota bod pawb sy'n ymwneud â'r gweithgarwch electrobysgota i'w gweld
19. dargludedd dŵr a'i bwysigrwydd i sefydlu a defnyddio'r cyfarpar electrobysgota yn effeithiol
20. effaith bosibl amodau amgylcheddol andwyol ar electrobysgota
21. sut gall morffoleg, tymheredd y dŵr a maint pysgod effeithio ar weithgareddau electrobysgota
22. pwysigrwydd bioddiogelwch yn ystod gweithgareddau electrobysgota

Geirfa

Dylai'r diffiniadau isod eich helpu i ddeall y safon:

Anod

Mae anod yn electrod y mae cerrynt confensiynol yn llifo drwyddo i ddyfais drydanol bolar.

Dargludedd

Gallu dŵr i ddargludo trydan

Unedau cadw

Cyfarpar a ddefnyddir i gadw pysgod byw e.e. bwcedi, biniau, tanciau ac ati

Morffoleg

Cangen o fioleg sy'n delio ag astudio ffurf a strwythur organebau a'u nodweddion strwythurol penodol.

Amodau'r dŵr

Gwelededd, llif dŵr, dyfnder ac ati

Dal pysgod gan ddefnyddio technegau electrobysgota

Datblygwyd gan	Lantra
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	01 Chwef 2018
Dyddiad Adolygu Dangosol	01 Chwef 2021
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynol	Lantra
RCU gwreiddiol	LANFiM10
Galwedigaethau perthnasol	Arolygydd, Perchennog/Rheolwr, Beili/Warden, Prif Feili, Rheolwr Pysgodfa, Uwch Reolwr Pysgodfa, Swyddog Datblygu Pysgodfeydd
Cyfres/Set	Rheoli Pysgodfeydd
Geiriau Allweddol	pysgod; dal; pysgodfa; uned; electrobysgota